**LC1272**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The General Dental Services and Personal Dental Services Transitional and Consequential Provisions (Wales) Order 2006

Mae'r Gorchymyn yma'n gwneud rhagor o ddarpariaethau trosiannol ynglyn â chyfnod pontio'r gyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau deintyddol sylfaenol o 1 Ebrill 2006 ymlaen a hynny mewn perthynas â phontio o wasanaethau deintyddol cyffredinol a chynlluniau peilot ar gyfer gwasanaethau deintyddol personol. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol a dirymiadau. Cafodd y Gorchymyn ei wneud ar 28 Mawrth 2006 o dan y Weithdrefn Weithredol a daeth i rym ar 1 Ebrill 2006.

## Rheol Sefydlog 11.7

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau yma o dan Reol Sefydlog 11.7(viii).

Mae'r Gorchymyn yn rhan o gyfres o offerynnau statudol sy'n sail i'r gyfundrefn newydd ar gyfer gwasanaethau deintyddol sylfaenol. Mae adroddiadau blaenorol wedi dweud bod y trafodaethau gyda'r Byrddau Iechyd Lleol a'r proffesiwn deintyddol wedi mynd ymlaen yn hirach na'r disgwyl a'i bod yn hanfodol rhoi'r diwygiadau ar waith yng Nghymru a Lloegr o 1 Ebrill 2006 ymlaen. O dan yr amgylchiadau, cytunodd y Gweinidog i'r Gorchymyn gael ei wneud yn uniaith Saesneg.

## Sylwadau

Dim.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 2 Mai 2006